# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

## RHAN 5

CYMHWYSO'R DDEDDF A DCRHT I BERSONAU A CHYRFF PENODOL

### 37 Cydbrynwyr: rheolau cyffredinol

(1) Mae'r adran hon ac adrannau 38 i 40 yn gymwys i drafodiad tir pan fo dau brynwr neu ragor sydd neu a fydd â'r hawl ar y cyd i'r buddiant a gaffaelir.

(2) Y rheolau cyffredinol yw—

(a) mae unrhyw rwymedigaeth ar ran y prynwr o dan y Ddeddf hon neu DCRhT mewn perthynas â'r trafodiad yn rhwymedigaeth ar ran y prynwyr ar y cyd ond caniateir i unrhyw un neu ragor ohonynt ei chyflawni,

(b) mae'n rhaid i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu yr awdurdodir ei wneud gan y Ddeddf hon neu DCRhT mewn perthynas â'r prynwr gael ei wneud mewn perthynas â hwy i gyd,

(c) mae'n rhaid i unrhyw beth y mae'r Ddeddf hon neu DCRhT yn awdurdodi ei wneud gan y prynwr gael ei wneud ganddynt hwy i gyd, a

(d) mae unrhyw atebolrwydd ar ran y prynwr o dan y Ddeddf hon neu DCRhT mewn perthynas â'r trafodiad (yn benodol, unrhyw atebolrwydd sy'n codi yn rhinwedd y methiant i gyflawni rhwymedigaeth o fewn paragraff (a)) yn atebolrwydd ar ran y prynwyr ar y cyd ac yn unigol.

(3) Mae'r rheolau cyffredinol hyn yn ddarostyngedig i ddarpariaeth a wneir yn adrannau 38 i 40.

(4) Mae'r adran hon ac adrannau 38 i 40 yn cael effaith yn ddarostyngedig i—

(a) darpariaethau Atodlen 7 sy'n ymwneud â phartneriaethau, a

(b) darpariaethau Atodlen 8 sy'n ymwneud ag ymddiriedolwyr.